# Dileu ffacs o'r rhwymedigaethau gwasanaeth cyffredinol ar BT a KCOM

**YMGYNGHORIAD**

Dyddiad cyhoeddi: 1 Tachwedd 2022
Dyddiad cau ar gyfer ymatebion: 1 Rhagfyr 2022

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg 1

# 1. Trosolwg

Mae'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol teleffoni (USO) yn sicrhau bod isafswm set o wasanaethau teleffoni ar gael am bris fforddiadwy i bobl ar draws y DU.

BT a KCOM yw'r darparwyr gwasanaeth cyffredinol dynodedig yn y DU, ac mae rheolau USO presennol Ofcom yn mynnu eu bod yn darparu gwasanaethau ffacsimili (ffacs). Mae cwmpas yr USO yn cael ei bennu gan Lywodraeth y DU drwy ddeddfwriaeth a, than yn ddiweddar, roedd wedi mynnu i wasanaethau ffacs gael eu darparu ar draws y DU fel gwasanaeth cyffredinol.

Yn ddiweddar, mae Senedd y DU wedi dileu gwasanaethau ffacs o'r ddeddfwriaeth USO, gan ddilyn ymgynghoriad gan Ofcom ym mis Tachwedd 2021. Gwnaed y diwygiad hwn wrth i rwydweithiau teleffoni gael eu newid i dechnoleg protocol rhyngrwyd (IP), sy'n golygu na fydd gwasanaethau ffacs yn gweithio yn yr un ffordd bellach ar ôl symud i rwydweithiau IP. Mae hefyd yn adlewyrchu'r ffaith bod y defnydd o wasanaethau ffacs yn y DU bellach yn gyfyngedig iawn, a bod amrywiaeth o ddewisiadau amgen am ddim, neu gost isel, ar gael.

### Beth rydym yn ei gynnig - yn gryno

**Diwygio ein rheolau i ddileu'r gofyniad i BT a KCOM ddarparu gwasanaethau ffacs o dan yr USO.** Bydd hyn yn sicrhau bod ein rheolau'n adlewyrchu'r gofynion yn y ddeddfwriaeth gwasanaethau cyffredinol ac nad ydynt yn ormodol o feichus.

**Rydym yn gwahodd sylwadau ar ein gweithrediad o'r newid hwn erbyn 1 Rhagfyr 2022.** Disgwyliwn gyhoeddi datganiad yn gynnar yn 2023.